

Rhagflas ar Hanes Cymru

(Parhad o dudalen 11)

mewn gwasgodlwyn a elwir 'Y Gwyllt', hwn a elwir wedi hyn yn Gastell Owain Goch. Nid nepell oddi yma roedd porthladd bychan prysur o'r enw Aber Gafran, lle hwylus bryd hynny i ddianc i'r Iwerddon pe byddai'n rhaid. Ar y pryd ni wyddai Owain beth oedd tynged Gwynedd na'i gartref yn Nolwyddelan.

Yn dilyn marwolaeth Dafydd, mab Siwan a hanner brawd ei dad Gruffydd, yn Hafod Garth Celyn, Tintaioi, yn y flwyddyn 1246, fe rannwyd y dywysogaeth rhwng Owain a Llywelyn. Ond pahan rhannu'r dywysogaeth? Owain oedd y cyntafanedig?

Y nam corfforol oedd yn gyfrifol. Roedd Owain wedi ei ddisbaddu fe gofiwch; Iorwerth Drwyndwn â 'nam corfforol' ar ei wyneb ac, yn ôl cyfraith y Cymry bryd hynny, roedd rhaid i dywysog fod yn ddi-nam.

Dywed y bardd Hywel Foel, am Owain fel hyn:

Gŵr yn rwym gan rwyf Eryri,
Gŵr run fath a Rluon tad Beli;
Gŵr na all lloegr ei losgi i'w derfyn;
Gŵr o hil Merfyn mawrfryd Benlli.

Gellir sylweddoli y dioddefaint a ddaeth i ran Owain o'i garcharu gan Harri III yn y Tŵr Gwyn, Llundain.

Bu Owain a Llywelyn yn cyd-deyrnasu am naw mlynedd wedi hyn gydag ambell ffrwgwd, yn bennaf oherwydd meddiant tir, ac oherwydd meddiant tir i Dafydd y dechreuodd rhyfel Bwlchderwyn, neu Bwlchdeuwint, yn y flwyddyn 1255, nepell

o Bantglas heddiw. Galwyd y lle hwn yn Bron yr Erw, ac yma bu brwydr a barodd un awr yn unig, rhwng Owain a Dafydd, ei frawd ieuenga, ar yr un llaw a Llywelyn ar y llaw arall, a hyn oll oherwydd rhannu tir.

Cyn hyn roedd Owain a Dafydd wedi symud i fyw i Gastell Madryn yn Llŷn tra roedd Llywelyn wedi aros gartref yn Nolwyddelan ac, er i'w mam Senena erfyn yn daer, ond yn ofer, arnynt i gymodi, Llywelyn a'i fyddin a orfu. Dalwyd Owain ac fe'i carcharwyd am ddwy flynedd ar hugain yng Nghastell Dolbadarn, Llanberis. Fe ddaliwyd Dafydd hefyd a'i garcharu am oddeutu dwy flynedd.

Yn y flwyddyn 1277 rhyddhawyd Owain o'r carchar yn Nolbadarn a rhoddwyd stad fawr iddo yn Llŷn gan Llywelyn, yn cynnwys Castell Madryn yn gartref. Hwn a elwir ar ôl merch Gwrtheyrn Gwrthennau, tua diwedd y flwyddyn 300 i ddechrau'r 400, yn Nanhoron, neu 'Man y Goron', Coron Arthur a Gwerthyr, sef 'Fortification'. Erbyn hyn roedd Owain yn drigain oed, ac yn dangos creithiau ysbrydol ei garcharu dros hir amser.

Bu farw ar ei stad yn Llŷn yn bump a thrigain mlwydd oed. Erbyn hynny roedd Aberconwy wedi ei gymryd gan y Saeson, ac oherwydd hyn credir i Owain gael ei gladdu yn nistawrwydd Pen Llŷn, yn Madryn neu hen fynwent capel henafol Nanhoron.

Flwyddyn wedi marwolaeth Owain, tua diwedd 1283, daeth Edward I a'i wraig feichiog, y frenhines Elinor, yr holl ffordd i gastell Caernarfon, (ganwyd y plentyn, Edward II, ar y pumed ar hugain o Ebrill

1284). Roedd Edward yn awyddys i ddarganfod y drydedd Goron Talaith a'r Groes Nawdd Gymreig. Roedd eisioes wedi derbyn Croesau Nawdd a Choronau Talaith Llywelyn a Dafydd, ac wedi codi beddrod y brenin Arthur ar Ynys Afallon (Glastonbury) ar y pedwerydd ar ddeg o Ebrill yn y flwyddyn 1278, rhyw bum mlynedd ynghynt, ond heb ddarganfod coron Arthur. Aeth ar frys i Nefyn gan yrru ei ysbïwyr allan i'r wlad i chwilio am Madryn, Gwerthyr a Nanhoron. Yno darganfyddwyd Coron Arthur a Theyrnwialen Cunedda ymysg trysorau Cymreig eraill, a'u dychwelyd i faes Llywelyn, Nefyn, lle roedd gwersyll Edward a'i fyddin.

I ddathlu y darganfyddiad chwyldroadol hwn, gwnaeth Edward I, wledd Bord Gron Arthuraidd ar gae a elwir ar ôl hyn yn gae Iorwerth, Nefyn, ac yno y gwisgodd goron Arthur ar ei ben am y tro cyntaf, sef coron y Brythoniaid/Cymry. Yno hefyd ar lwyfan roedd penaethiaid ei fyddin yn dathlu. Yn sydyn disgynnodd y llwyfan ac Edward i'r llawr dan bwysau yr holl gyfeddach. Yn fuan ar ôl hyn fe ddygwyd y trysorau i Gastell Caernarfon. Dywed hanes i Edward gael ei gladdu yn gwisgo'r goron hon, coron Arthur a'r Brythoniaid/Cymry.

Gwlechwch (Y Gwyddoniadur Cymreig, Cyn - Druw, Cyf III. Tudalen 89 CYMR.) Yn niwedd y drydedd ganrif ar ddeg, cedwid coron Arthur yng Nghaernarfon. (Hefyd tudalen 92.)

Symudwyd y trysorau Cymreig gwerthfawr hyn gan osgordd o filwyr arbennig, yn gyntaf i Gastell Conwy, wedyn i Ruddlan ac yna ymlaen i drysordy brenhiniaeth Lloegr, Tŵr Llundain. Gwyddom i rai gael eu symud yn ddiweddarach i Abaty Westminster.

Yn ôl datganiad 'Britannia Gateway' a hanes 'Windsor Relics' ar y cyfrifiadur, mae Icon y Cymry, sef Croes Nawdd Llywelyn ap Gruffydd, a'r blwch Sanctaidd 'St Neot's Cross' mewn cuddfan dan fwrdd y prif allor yng Nghapel St George's yn Windsor.



Gruffydd ap Llywelyn yn syrthio i'w farwolaeth wrth geisio dianc o Dŵr Llundain.

William Alun Mathias

Nos Wener, 31 Hydref 2002, bu farw un o gefnogwyr mwyaf brwdfrydig *Y Casglwr*. Roedd Alun Mathias yn frodor o Gaerdydd ac fe fu am flynyddoedd lawer yn aelod o staff yr Adran Addysg ym Mhrifysgol Cymru Caerdydd. Fe'i cyfrifid yn gryn arbenigwr ar fywyd a gweithiau William Salesbury a'i gyfnod; nid annisgwyl felly iddo ddewis traethu ar Salesbury yn ei Ddarlith Goffa Griffith John Williams ddiwedd y 1990au. Am nifer o flynyddoedd bu wrthi'n ceisio darganfod sawl copi o *Destament Newydd Salesbury* (1567) oedd wedi goroesi'r blynyddoedd. I'r perwyl hwn bu'n gohebu â llyfrgelloedd academig a diwinyddol ar draws y byd, ambell waith yn ymweld â hwy hefyd - a'r cyfan yn llafur cariad a gyflawnwyd ganddo â chryn drylwyredd. Cyrhaeddodd at gyfanswm o hanner cant o gopiau, gan gynnwys ei gopi ef ei hunan, a chyhoeddodd ffrwyth ei astudiaethau yn *Y Casglwr*, rhifynnau 41 a 42.

O'i ddyddiau cynnar bu'n hel llyfrau Cymraeg a chynhwysai ei lyfrgell helaeth nifer o gyfrolau diddorol a phrin. Bu ganddo ddiddordeb arbennig yng nghofiannau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a chanddo gasgliad eang iawn ohonynt. Adeg ei farwolaeth yr oedd â'i fryd ar lunio erthygl ar Evan Jones, ficer Solfa yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn ffigwr diddorol yn hanes addysg yng Nghymru.

Yr oedd Alun Mathias (ynghyd â'i ddiweddar gyfaill, Aneurin Lewis, ac eraill) yn un o sylfaenwyr Cylch Llyfryddol Caerdydd ac ychydig flynyddoedd yn ôl fe'i

DYSG A DAWN

Cyrol Goffa Aneurin Lewis

Golygyddion:

W. Alun Mathias ac E. Wyn James

*Traw'i flywyd diwyd twel ei aelwyd
a wylodd, a'i gapel,
yn twyllog a diogel
a rhoi'i ddysg i'r rhai a ddol.
T. Arfon Williams*

Cylch Llyfryddol Caerdydd
1992

hanrhydeddwyd gan y Cylch drwy ei benodi'n Llywydd Anrhydeddus. Wrth dalu teyrnged iddo yn y gwasanaeth angladdol cyfeiriodd ei gyd-Llywydd Anrhydeddus, Yr Athro Ceri Lewis, at ei ysgolheictod a'i foneddigeiddrwydd. Ac fel'na y bydd y cof amdano - fel gŵr boneddig o ysgolhaig a llyfrbryf o'r hen ysgol a oedd bob amser yn barod iawn ei gymwynas mewn materion llyfryddol. Cydymdeimlwn yn ddwys ag Eleanor ei wraig - ei gydmeithes gyson ar ei amf deithiau llyfryddol.

R. E. H.



Cerfiad o'r Groes Nawdd yn nenfud Capel Windsor.